MICK ANTONIW

MS FOR PONTYPRIDD CONSTITUENCY
AS DROS ETHOLAETH PONTYPRIDD

ANNUAL REPORT
ADRODDIAD BLYNYDDOL

2023

Senedd Cymru
Welsh Parliament

The costs of this communication have been met by the Senedd Commission from public funds.
Comisiwn y Senedd sydd wedi talu costau'r deunydd cyfathrebu hwn gan ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus.

USEFUL CONTACTS
CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

SOUTH WALES POLICE
101
HEDDLU DE CYMRU

RCT HELPLINE
01443 425005
LLINELL CYMORTH RhCT

DOMESTIC ABUSE LINE
0808 80 10 800
LLINELL CAM-DRIN

RCT CITIZENS' ADVICE
01443 409 284
CYNGOR AR BOPETH

UNIVERSAL CREDIT
0800 328 5644
CREDYD CYNHWYSOL

TAFF ELY FOODBANK
01443 520 730
BANC BWYD TAF ELAI

AGE CYMRU
0800 652 9221

2023 was a difficult year for many. Internationally, war in Ukraine and the Middle East saw many more innocent lives lost. At home, the cost-of-living crisis continued to bite, and Welsh Government faced unprecedented budget cuts, meaning less money for the services we all rely on.

It's in this context that I continue to do my best for our constituency, and there have been some real steps forward. Record investment in our schools continues, the Snowdrop Breast Cancer Centre opened, as did the Metro Control Centre in Taff's Well.

Thank you for reading this report, in which I provide more information about my work in Pontypridd constituency.

If you have any questions, please get in touch. I'd like to wish you and your loved ones a peaceful and happy New Year.

Mick Antoniw

CONTACT · CYSYLLTWCH

(01443) 406 400
mick.antoniw@senedd.cymru
FB & IG: @mick.antoniw
X: @mickantoniw1

Welsh Labour Llafur Cymru

yn gweithio gyda chi

Roedd 2023 yn flwyddyn anodd i lawer. Yn rhyngwladol, collodd rhyfel yn yr Wcrain a'r Dwyrain Canol lawer mwy o fywydau diniwed.

Gartref, parhaodd yr argyfwng costau byw i frathu, ac roedd Llywodraeth Cymru yn wynebu toriadau digynsail yn y gyllideb, gan olygu llai o arian ar gyfer y gwasanaethau yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt.

Yn y cyd-destun hwn yr wyf yn parhau i wneud fy ngorau dros ein hetholaeth, a bu rhai camau gwirioneddol ymlaen. Mae'r buddsoddiad mwyaf erioed yn ein hysgolion yn parhau, agorodd Canolfan Canser y Fron Snowdrop, fel y gwnaeth Canolfan Reoli Metro yn Ffynnon Taf.

Diolch i chi am ddarllen yr adroddiad hwn, lle rhoddaf ragor o wybodaeth am fy ngwaith yn etholaeth Pontypridd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â fi, mae'r manylion isod.

Hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd heddychlon a hapus i chi a'ch anwyliaid.

Mick Antoniw

SURGERIES · CYMORTHFEYDD

I hold regular surgeries across the constituency and you can find all my surgery dates, as well as information on accessibility, by scanning this code with your smartphone

Rydw i'n cynnal cymorthfeydd rheolaidd ar draws yr etholaeth hefyd, a gallwch chi ddod o hyd i holl ddyddiadau'r cymorthfeydd, a rhagor o wybodaeth trwy sganio fan hyn.

FREE SCHOOL MEALS
CINIO YSGOL RHAD AC AM DDIM

I'm proud to have voted for **Universal Primary Free School Meals**, an important policy which tackles inequality and helps children learn.

In our own constituency, this has been rolled out up to Years 3 and 4, with further rollout planned for Years 5 and 6 in April 2024. Find out more by scanning the QR code below.

Rwy'n falch o fod wedi pleidleisio dros **Ginio Ysgol Rhad ac Am Ddim Cyffredinol**, polisi pwysig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac sy'n helpu plant i ddysgu.Yn ein hetholaeth ein hunain, mae hwn wedi'i gyflwyno hyd at Flynyddoedd 3 a 4, a bwriedir ei gyflwyno ymhellach ar gyfer Blynyddoedd 5 a 6 ym mis Ebrill 2024. drwy sganio'r cod QR isod.

CLAIM WHAT'S YOURS
Every year, £19bn goes unclaimed by those eligible for help.
Make sure you know what you're entitled to.
Scan this QR code for more information

WALES FIRST COUNTRY IN UK TO BAN SNARES
CYMRU'N GYNTAF YN Y DU I WAHARDD MAGLAU

I proudly supported the new **Agriculture (Wales) Act**, which received 'royal assent' on August 17th.
This historic legislation will underpin how farming is done in Wales, how farmers will be supported to produce food sustainably, and will also introduce new standards on animal welfare, making Wales the first country in the UK to ban snares and glue traps due to the unnecessary suffering they cause to animals.

With Billie-Jade Thomas of the RSPCA who showed me how snare traps were used
Efo Billie-Jade Thomas o'r 'RSPCA' a ddangosodd i mi sut y defnyddiwyd maglau.

Roeddwn yn falch o gefnogi'r **Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru)** a gafodd 'gydsyniad brenhinol' ar Awst 17eg. Bydd y ddeddfwriaeth hanesyddol hon yn sail i'r ffordd y caiff ffermio ei wneud yng Nghymru, sut y caiff ffermwyr eu cefnogi i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, a bydd hefyd yn cyflwyno safonau newydd ar les anifeiliaid, gan wneud Cymru'r wlad gyntaf yn y DU i wahardd maglau a thrapiau glud oherwydd y dioddefaint y maent yn ei achosi i anifeiliaid.

EICH HAWL I HAWLIO
Bob blwyddyn, mae £19bn yn mynd heb ei hawlio gan y rhai sy'n gymwys i gael cymorth. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth mae gennych hawl iddo. Sganiwch y cod QR am ragor o wybodaeth

HELPING LOCAL GROUPS

My team and I have helped organisations secure funding from the Welsh Government's **Community Facilities Programme** (known as CFAP).

Cwm Welfare AFC have been able to improve disabled access to their facilities and ground, and **Friends of Tyn Y Bryn Park** in Tonyrefail have been able to install fantastic outdoor gym.

HOPE RESCUE

This fantastic charity does amazing work in our constituency, rescuing and re-homing dogs. I'm proud to have nominated them for a St.David's Award alongside Huw Irranca-Davies MS for Ogmore.

EISTEDDFOD 2024

It's fantastic news that the National Eisteddfod is coming to Pontypridd in August 2024. I and my team will be fundraising as well as getting fully behind this amazing event.

CFAP PROGRAMME

For more information about the Welsh Government's Community Facilities Programme (CFAP), scan the QR code

HELPU GRWPIAU LLEOL

Mae fy nhîm a minnau'n helpu sefydliadau i sicrhau cyllid o **Raglen Cyfleusterau Cymunedol** Llywodraeth Cymru. Mae **CPD Cwm Welfare** wedi gallu gwella mynediad i'r anabl a chyfleusterau eraill ar eu maes, ac mae **Cyfeillion Parc Tyn y Bryn** yn Nhonyrefail wedi gallu gosod champfa awyr agored wych.

HOPE RESCUE

Mae'r elusen wych hon yn gwneud gwaith anhygoel yn ein hetholaeth, yn achub ac yn ailgartrefu cŵn. Rwy'n falch o fod wedi eu henwebu ar gyfer Gwobr Dewi Sant ochr yn ochr â Huw Irranca Davies MS

EISTEDDFOD 2024

Mae'n newyddion gwych bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn ddod i Bontypridd ym mis Awst 2024. Byddaf i a fy nhîm yn codi arian yn ogystal â chefnogi'r digwyddiad anhygoel hwn yn llwyr.

RHAGLEN CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

I gael rhagor o wybodaeth am Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru, sganiwch y cod QR

21st-CENTURY SCHOOLS · YSGOLION YR 21ain GANRIF

Our young people deserve the best facilities, which is why I support the continued roll-out of Welsh Government's and RCT Council's 21st-Century Schools programme.
I've been pleased to visit new facilities at BrynCelynnog Comprehensive and the site of the new school building at Pontyclun Primary. These facilities will benefit learners and staff for generations to come.

Mae ein pobl ifanc yn haeddu'r cyfleusterau gorau, a dyna pam rwy'n cefnogi cyflwyniad Llywodraeth Cymru a Chyngor RhCT o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
Rwyf wedi bod yn falch o ymweld â chyfleusterau newydd yn Ysgol Gyfun BrynCelynnog a safle adeilad newydd Ysgol Gynradd Pontyclun. Bydd y cyfleusterau hyn o fudd i ddysgwyr a staff am genedlaethau i ddod.

EDUCATION MATTERS
I have produced a booklet on education, which details all the new school builds in our constituency.
Scan the QR code to download a PDF

GIRLS IN STEM · MERCHED MEWN 'STEM'

I had the honour of addressing the 'Discovering Your Chemical Potential' event at University of South Wales, organised by Chwarae Teg.
The aim of this event was to encourage more girls to pursue a STEM-related career.
Here in Wales, many women scientists are leaders in their field - I'm glad that we are encouraging the next generation to follow in their footsteps.

Cefais y fraint o annerch y digwyddiad 'Darganfod Eich Potensial Cemegol' ym Mhrifysgol De Cymru, a drefnwyd gan Chwarae Teg.
Nod y digwyddiad hwn oedd annog hyd yn oed mwy o ferched i ddilyn gyrfa yn ymwneud â 'STEM'.
Yma yng Nghymru, mae llawer o wyddonwyr benywaidd yn arweinwyr yn eu maes – rwy'n falch ein bod yn annog y genhedlaeth nesaf i ddilyn eu traed.

FFIT I'R DYFODOL
Rwyf wedi cynhyrchu llyfryn ar addysg, sy'n manylu arno yr holl ysgolion newydd yn ein hetholaeth.
Sganiwch y cod QR i lawrlwytho PDF

housing ▪ tai

SECOND HOMES

I'm extremely concerned that many people are still unable to afford a decent home in their communities, due to high property prices. It's for this reason that I've supported reforms to allow councils to raise the maximum Council Tax premium on second homes to 300%, to help increase the supply of housing for local people.

AIL CARTREFI

Rwy'n bryderus iawn bod llawer o bobl yn dal i fethu fforddio cartref gweddus yn eu cymunedau, oherwydd prisiau eiddo uchel. Dyna pam yr wyf wedi cefnogi diwygiadau i ganiatáu i gynghorau godi premiwm Treth y Cyngor ar ail gartrefi i 300%, er mwyn helpu cynyddu'r cyflenwad o dai ar gyfer pobl leol.

FAIRER COUNCIL TAX

Although a significant number of people in Pontypridd are exempt from Council Tax (CT), too many people on modest incomes struggle to pay their CT bill. I'm supporting WG's plans to introduce a fairer system, because the current system places too much burden on people in the lowest bands. Have your say and take part in the consultation (below).

TRETH CYNGOR DECACH

Er bod nifer sylweddol o bobl ym Mhontypridd wedi'u heithrio rhag Treth y Cyngor (TC), mae gormod o bobl ar incwm cymedrolei chael yn anodd talu eu bil. Rwy'n cefnogi cynlluniau LlC i gyflwyno system decach, oherwydd mae'r system bresennol yn rhoi gormod o faich ar bobl yn y bandiau isaf. Dweud eich ddweud a cymerwch rhan yn yr ymgynghoriad.

CONSULTATION

Make sure you have your say. Find out more about the Fairer Council Tax consultation by scanning the QR code

cynllunio · planning

I engage with local groups regularly on planning matters, such as standing with residents in Pontyclun against an increase in operations at the Forrest Wood quarry which could bring an additional 20 20-ton lorry journeys through the high street every day.
The planning system is there to protect the environment, whilst ensuring that infrastructure improvements can be made and that the housing people need is available, but I will always oppose developments that are unsustainable. That's why I continue to push for a change to planning rules, so that Health Boards are consulted as a matter of course on large-scale housing developments, because of the impact they can have on local health services.

Rwy'n ymgysylltu â grwpiau lleol yn rheolaidd ar faterion cynllunio, megis sefyll gyda thrigolion Pontyclun yn erbyn cynnydd mewn gweithrediadau yn chwarel Forrest Wood a gallai ddod a 20 taith lori 20-tunell ychwanegol drwy'r stryd fawr bob dydd.
Mae'r system gynllunio yno i warchod yr amgylchedd, tra'n sicrhau y gellir gwneud gwelliannau seilwaith a bod y tai sydd eu hangen ar bobl ar gael, ond byddaf bob amser yn gwrthwynebu datblygiadau sy'n anghynaliadwy. Dyna pam yr wyf yn parhau i wthio am newid i reolau cynllunio, fel yr ymgynghorir â Byrddau Iechyd fel mater o drefn ar ddatblygiadau tai ar raddfa fawr, oherwydd yr effaith y gallant ei chael ar wasanaethau iechyd lleol.

YMGYNGHORIAD
Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud eich dweud.
Darganfod mwy am yr Ymgynghoriad tecach
ar y Dreth Gyngor trwy sganio'r cod r QR

NHS 75

The NHS came into being on the 5th July 1948: a true milestone in the history of our country. No more would people have to worry about ill-health for lack of means to pay for treatment.

As part of the 75th anniversary celebrations, I asked constituents what reasons they had to celebrate the NHS. Here is my favourite quote.

"It saved my life when I was six years old. I'm now approaching my 67th Birthday.
Diolch yn fawr"
Robert Bevan

MENTAL HEALTH SUPPORT - NHS 111 - PRESS 2
If you or someone you care about needs to talk to someone about mental health, phonelines aopen 24/7/365.

GIG 75

Daeth y GIG i fodolaeth ar 5 Gorffennaf 1948: carreg filltir wirioneddol yn hanes ein gwlad. Ni fyddai'n rhaid i bobl boeni mwy am afiechyd oherwydd diffyg modd i dalu am driniaeth.

Fel rhan o'r dathliadau pen-blwydd yn 75, gofynnais i etholwyr pa resymau oedd ganddynt i ddathlu'r GIG. Dyma fy hoff ddyfyniad.

"Fe achubodd fy mywyd pan oeddwn yn chwe blwydd oed. Rydw i nawr yn agosáu at fy mhen-blwydd yn 67 oed. Diolch yn fawr"
Robert Bevan

CEFNOGAETH IECHYD MEDDWL - NHS 111 - PWYSWCH 2
Os oes angen i chi neu rywun yr ydych yn gofalu amdano siarad â rhywun am iechyd meddwl, mae llinellau ffôn ar agor 24/7/365.

health

NEW 'SNOWDROP' BREAST CENTRE

I was honoured to attend the official opening of the Snowdrop Breast Centre, a state-of-the-art, dedicated unit for breast cancer care in Llanstrisant, which was part-funded by the fundraising efforts of the late Clare Smart who founded **Giving to Pink**. The staff here are nothing short of inspirational - anyone who uses this facility can be certain of the best care.

DEWI SANT

I keep in touch with health professionals such as Geoff Lloyd who has given years of service as a GP based at Dewi Sant Hospital. This dialogue allows medical practitioners to relay concerns which I can try to address.

I was pleased with the response from Cwm Taf Health Board about the parking situation at Dewi Sant hospital. Staff have been issued with permits for the Sardis Road car park, freeing up capacity in the hospital grounds for patients.

DEVELOPMENT OF REGIONAL TREATMENT HUB

It's great news for our constituency that development of a new diagnostics and treatment centre for the South East Wales region, located in Llantrisant, near to the Royal Glamorgan Hospital.

CANOLFAN FRON 'SNOWDROP' NEWYDD

Roedd yn anrhydedd i mi fynychu agoriad swyddogol Canolfan Fron Snowdrop, uned bwrpasol o'r radd flaenaf ar gyfer gofal canser y fron yn Llantrisant, a gafodd ei hariannu'n rhannol gan ymdrechion codi arian y ddiweddar Clare Smart a sefydlodd **Giving to Pink**. Mae'r staff yma y ysbrydoledig - gall unrhyw un sy'n defnyddio'r cyfleuster hwn fod yn sicr o'r gofal orau.

DEWI SANT

Rwy'n cadw mewn cysylltiad â gweithwyr iechyd proffesiynol fel Geoff Lloyd sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth fel meddyg teulu yn Ysbyty Dewi Sant. Mae'r ddeialog hon yn galluogi ymarferwyr meddygol i gyfleu pryderon y gallaf geisio mynd i'r afael â hwy.

Roeddwn yn falch o'r ymateb gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf am y sefyllfa barcio yn ysbyty Dewi Sant. Mae staff wedi cael trwyddedau ar gyfer maes parcio Heol Sardis, gan ryddhau lle ar dir yr ysbyty i gleifion.

DATBLYGU CANOLFAN TRINIAETH RHANBARTHOL

Mae'n newyddion gwych i'n hetholaeth bod y datblygiad hwnnw o ganolfan diagnosteg a thriniaeth newydd ar gyfer rhanbarth De-ddwyrain Cymru, wedi'i lleoli yn Llantrisant, ger Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

METRO

The Llantrisant-Cardiff Metro is my number one campaign priority. In the current financial climate, it will be extremely challenging to secure the funding needed, but that won't stop me doing everything I can to make it happen!

TAFF'S WELL METRO HUB

It is good news that the Metro control centre in Taff's Well opened in August and the Hub itself is nearing completion. Just as importantly, it has been good to work with TfW and Taff's Well residents to secure a replacement crossing for the Portobello crossing and to help resolve occasional issues around noise from the construction project.

I've long supported a 20MPH default speed limit, but I know some residents have been less enthusiastic about this. The new system is bedding in, and I want to assure any constituents who still have doubts, that the new approach remains under review.

METRO
Metro Llantrisant-Caerdydd yw fy mhrif flaenoriaeth ymgyrchu. Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, bydd yn hynod o heriol sicrhau'r cyllid, ond ni fydd hynny'n fy atal rhag gwneud popeth o fewn fy ngallu i wneud iddo ddigwydd!

HWB METRO FFYNON TAF
Mae'n newyddion da bod canolfan reoli'r Metro yn Ffynnon Taf wedi agor ym mis Awst ac mae'r Hyb ei hun bron wedi'i gwblhau. Yr un mor bwysig, bu'n dda gweithio gyda TrC a thrigolion Ffynnon Taf i sicrhau croesfan newydd ar gyfer croesfan Portobello ac i helpu i ddatrys problemau achlysurol ynghylch sŵn o'r prosiect adeiladu.

Rwyf wedi cefnogi terfyn cyflymder rhagosodedig o 20MPH ers tro, ond gwn fod rhai preswylwyr wedi bod yn llai brwdfrydig am hyn. Mae'r system newydd yn gwreiddio, ac rwyf am sicrhau unrhyw etholwyr sydd ag amheuon o hyd, bod y dull newydd yn dal i gael ei adolygu.

MADALENA SIDOLI from Llantrisant, is an inspirational young squash player who has represented Wales ten times, and recently placed 3rd in the British Junior Championships. She is recognised as a 'target player' by Squash Wales.

MADALENA SIDOLI o Lantrisant, yn chwaraewr sboncen ifanc ysbrydoledig sydd wedi cynrychioli Cymru ddeg o weithiau, ac yn ddiweddar wedi dod yn 3ydd ym mhencampwriaethau Iau Prydain. Mae hi'n cael ei chydnabod fel 'chwaraewr targed' gan Sboncen Cymru.

I try my best to attend and support as many community events as possible. I'm pictured alongside Cllr. Maureen Webber and Cllr Tina Leyshon having a great time at the Rhydyfelin fun day. It was great to see the community coming together at such a well-organised, friendly event.

Rwy'n gwneud fy ngorau glas i fynychu a chefnogi cymaint o ddigwyddiadau cymunedol â phosibl. Yn y llun ochr yn ochr â Cynghorwyr Maureen Webber a Tina Leyshon yn cael amser gwych yn niwrnod hwyl Rhydyfelin. Braf oedd gweld y gymuned yn dod at ei gilydd mewn digwyddiad mor drefnus a chyfeillgar.

If you have an idea for a community project, or want to share a success story, contact Anne Davies, my Community Engagement Officer at **anne.davies@senedd.wales**

BANKS CLOSING

I continue to object to the closures of local branches by big High Street banks. We have seen closures across the constituency, with some areas now without a bank at all.
In my view, banks have a social responsibility to the communities in which they have built their wealth and grown their businesses. I will continue to challenge banks on these issues.

BANCIAU YN CAU

Rwy'n parhau i wrthwynebu cau canghennau lleol gan fanciau mawr y Stryd Fawr. Rydym wedi gweld cau ar draws yr etholaeth, gyda rhai ardaloedd bellach heb fanc o gwbl.
Yn fy marn i, mae gan fanciau gyfrifoldeb cymdeithasol i'r cymunedau y maent wedi adeiladu eu cyfoeth ynddynt a thyfu eu busnesau. Byddaf yn parhau i herio banciau ar y materion hyn.

Os mae syniad gennych am brosiect gymunedol, neu os yr ydych eisio rhannu stori o lwyddiant, cysylltwch a Anne Davies Swyddog Ymgysylltu Gymundeol: **anne.davies@senedd.cymru**

environment • hinsawdd

We need to do much more to respond to the climate and nature emergency, so I proudly voted for a new law which came into effect in October, banning many single-use plastics in Wales. This new law is designed to reduce the flow of plastic pollution into our environment.

Mae angen i ni wneud llawer mwy i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur, felly pleidleisias yn falch dros ddeddf newydd a ddaeth i rym ym mis Hydref, yn gwahardd llawer o blastigau untro yng Nghymru. Mae'r gyfraith newydd hon, wedi'i chynllunio i leihau llif llygredd plastig i'n hamgylchedd.

I was pleased to visit the new Royal Mint Energy centre and meet representatives of Inifinite, a Bridgend-based company who have delivered two 'daffodil' wind turbines as well as a solar farm, making the production of coins in Llantrisant far greener.

Roeddwn yn falch o ymweld â chanolfan Ynni newydd y Bathdy Brenhinol a chwrdd â chynrychiolwyr Inifinite, cwmni o Ben-y-bont ar Ogwr sydd wedi darparu dau dyrbin gwynt 'cennin Pedr' yn ogystal â fferm solar, gan wneud cynhyrchu darnau arian yn Llantrisant yn llawer gwyrddach.

Follow me on social media for the latest updates on my work as your Member of Senedd for Pontypridd.
Facebook and Instagram: @mick.antoniw

ukraine ▪ wcráin

Many of you will already know that I am a second-generation Ukrainian, so this remains an issue close to my heart. The situation in Ukraine remains dire, even as the world's gaze turns towards other disastrous events. I continue to raise funds to help those bravely resisting Putin's invasion This year, these kind donations have allowed colleagues and I to take more aid to Ukraine (in my free time), including the ninth and tenth vehicles filled with medical equipment, clothing and other goods needed by those on the front line. I know how much this means to the people who receive this help, so a huge thank you to all those who generously donate money and time to this effort.

Bydd llawer ohonoch eisoes yn gwybod fy mod yn Wcryn ail genhedlaeth, felly mae hwn yn parhau i fod yn fater sy'n agos at fy nghalon. Mae'r sefyllfa yn Wcráin yn parhau i fod yn enbyd, hyd yn oed wrth i syllu'r byd droi at ddigwyddiadau trychinebus eraill. Rwy'n parhau i godi arian i helpu'r rhai sy'n gwrthsefyll ymosodiad Putin.
Eleni, mae'r rhoddion caredig hyn wedi caniatáu i gydweithwyr a minnau fynd â mwy o gymorth i'r Wcráin (yn fy amser rhydd), gan gynnwys y nawfed a'r degfed cerbydau wedi'u llenwi ag offer meddygol, dillad a nwyddau eraill sydd eu hangen ar y rhai ar y rheng flaen. Gwn faint y mae hyn yn ei olygu i'r bobl sy'n derbyn y cymorth hwn, felly diolch yn fawr iawn i bawb sy'n rhoi arian ac amser yn hael i'r ymdrech hon.

Dilynwch fi ar gyfryngau cymdeithasol i gael y diweddariadau ar fy ngwaith fel eich AS dros Bontypridd.
Facebook ac Instagram: @mick.antoniw

AUTOMATIC VOTER REGISTRATION

I have always supported initiatives to make it easier for people to vote, which is why I support the measures contained in the **Elections and Elected Bodies Bill** currently making its way through the Senedd. If passed into law, the Welsh Government will use these new powers to roll out pilots of automatic voter registration.

COFRESTRU PLEIDLEISWYR AWTOMATIG

Rwyf bob amser wedi cefnogi mentrau i'w gwneud yn haws i bobl bleidleisio, a dyna pam yr wyf yn gefnogi'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y **Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig** sy'n gwneud ei ffordd drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Os caiff ei basio'n gyfraith, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r pwerau newydd hyn i gyflwyno cynlluniau peilot

SENEDD REFORM

While the responsibilities of the Senedd have grown considerably since the Assembly (as it was) began in 1999,its membership has not.
The Scottish Parliament has 129 members - our Senedd currently has only 60.
I am supporting the Members and Elections Bill which will increase the size of the Senedd, amongst other measures, to strengthen Welsh democracy.

DIWYGIAD SENEDD

Er bod cyfrifoldebau'r Senedd wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r Cynulliad (fel yr oedd) ddechrau ym 1999, nid yw ei aelodaeth wedi cynyddu.
Mae gan Senedd yr Alban 129 o aelodau – dim ond 60 sydd gan ein Senedd ar hyn o bryd.
Rwy'n cefnogi'r Bil Aelodau ac Etholiadau a fydd yn cynyddu maint y Senedd, ymhlith mesurau eraill, i gryfhau democratiaeth Cymru.

If you have any issues or concerns, I'm here to help. You can arrange to meet me at a surgery by going to mickantoniw.wales

BACKING FAIR PAY AND CONDITIONS FOR WORKERS

Everyone deserves to be paid and treated fairly at work. With the cost-of-living crisis continuing to bite, a number of trades unions have been forced to strike to ensure that their wages keep up with inflation and that their working conditions are not eroded. I've been proud to stand in solidarity with workers from the postal and rail services, as well as college lecturers.
These people do vital work and deserve our support.

CEFNOGI CYFLOGAU AC AMODAU TEG I WEITHWYR

Mae pawb yn haeddu cael eu talu a'u trin yn deg yn y gwaith. Gyda'r argyfwng costau byw yn parhau i frathu, mae nifer o undebau llafur wedi cael eu gorfodi i streicio i sicrhau bod eu cyflogau'n cadw i fyny â chwyddiant ac nad yw eu hamodau gwaith yn cael eu herydu. Rwyf wedi bod yn falch o sefyll mewn undod â gweithwyr o'r gwasanaethau post a rheilffordd, yn ogystal â darlithwyr coleg. Mae'r bobl hyn yn gwneud gwaith hanfodol ac yn haeddu ein cefnogaeth.

Os oes gennych unrhyw faterion neu bryderon, rwyf yma i helpu.Gallwch drefnu i gwrdd â mi mewn cymhorthfa trwy fynd i mickantoniw.cymru

LLUNIAU O 2023 IN PICTURES

IONAWR/ JANUARY

Gyda tim anhygoel Hwb Bwyd BLT ym Meddau
With the amazing BLT Food Hub team in Beddau

CHWEFROR/ FEBRUARY

Balch i cefnogi Clwb Rygbi Beddau
Proud to support Beddau Rugby Club

MAWRTH/ MARCH

Dathlu menywod ysbrydoledig efo placiau porffor.
Celebrating purple plaques for inspirational women.

EBRILL/ APRIL

Annerch digwyddiad STEM i ferched yn PDC
Addressing a STEM for girls event at USW

MAI/ MAY

Mynychais goroni'r Brenin Siarl III
I attended the coronation of King Charles III

MEHEFIN/ JUNE

Wrth gofeb y Falklands ym Mharc Ynysangharad
At the Falklands memorial in Ynysangharad Park

GORFFENAF/ JULY

Gyda Julie Morgan AS ac aelodau W.I. Pontypridd
With Julie Morgan MS and Pontypridd W.I. members

AWST/ AUGUST

Ymweld â'r Hyb Metro newydd yn Ffynnon Taf
Visiting the new Metro Hub in Taff's Well

MEDI/ SEPTEMBER

Gyda Billie-Jade o'r RSPCA yn trafod wahardd maglau
With Billie-Jade of the RSPCA discussing snare ban.

HYDREF/ OCTOBER

Agor man ymarfer newydd: Clwb Golff Pontypridd.
Opening a new practice area at Ponty Golf Club

TACHWEDD/NOVEMBER

Dathliadau 60 mlynedd o Dr. Who, yn y Senedd
60 years of Dr. Who celebrations at the Senedd

RHAGFYR/DECEMBER

Ymgysylltu â busnesau bach a masnachwyr.
Engaging with small businesses and traders.

MICK ANTONIW
MS FOR PONTYPRIDD CONSTITUENCY
AS DROS ETHOLAETH PONTYPRIDD

(01443) 406 400
mick.antoniw@senedd.cymru